Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

---

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

---

# 2020 Rhif 1130 (Cy. 257)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau"). Mae'r diwygiadau—

(a) yn gosod cyfyngiadau ar bersonau sy'n teithio i Gymru o rannau o Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon sydd â chyfraddau uwch o achosion o'r coronafeirws, a chyfyngiadau cyfatebol ar bobl sy'n teithio o Gymru i ardaloedd o'r fath (gwneir hyn drwy gyfeirio at y rhannau o Gymru nad ydynt wedi eu

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

dynodi'n ardaloedd diogelu iechyd lleol oherwydd y cyfyngiadau sydd eisoes yn eu lle ar fynd i'r ardaloedd hyn neu eu gadael);

(b) yn darparu ei fod yn esgus rhesymol i fynd i ardal diogelu iechyd leol neu adael ardal o'r fath er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd wedi eu trefnu, neu hwyluso gweithgareddau sydd wedi eu trefnu, er datblygiad neu lesiant plant, ac yn addasu'r esgusodion rhesymol ar gyfer ymgynnull ac ar gyfer mynd i ardal diogelu iechyd leol a gadael ardal o'r fath fel eu bod yn gyson;

(c) yn gwneud mân ddarpariaethau a darpariaethau canlyniadol eraill.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 1130 (Cy. 257)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020

*Gwnaed am 11.40 a.m. ar 16 Hydref 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru am 1.00 p.m. ar 16 Hydref 2020*

*Yn dod i rym am 6.00 p.m. ar 16 Hydref 2020*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

**Enwi a dod i rym**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020 a deuant i rym am 6.00 p.m. ar 16 Hydref 2020.

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) ym mharagraff (1), ar ôl is-baragraff (r) mewnosoder—

"(s) ystyr "plentyn" yw person sydd o dan 18 oed, ond yn rheoliadau 14(2)(ja), 14A(2)(ea) a 14D(3)(l) a pharagraffau 3(2)(la) a 4(2)(la) o Atodlen 4A, ei ystyr yw person a oedd o dan 18 oed ar 31 Awst 2020;

(t) ystyr "ardal diogelu iechyd leol" yw ardal a restrir ym mharagraff 1 o Atodlen 4A.";

(b) ar y diwedd mewnosoder—

"(8) At ddibenion rheoliadau 14, 14A a 14D ac Atodlen 4A, mae gweithgaredd neu ddigwyddiad "wedi ei drefnu"—

(a) os yw wedi ei drefnu gan—

(i) busnes,

(ii) corff cyhoeddus neu sefydliad elusennol, llesiannol, addysgol neu ddyngarol,

(iii) clwb neu sefydliad gwleidyddol, neu

(**1**) O.S. 2020/725 (Cy. 162), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/752 (Cy. 169), O.S. 2020/803 (Cy. 176), O.S. 2020/820 (Cy. 180), O.S. 2020/843 (Cy. 186), O.S. 2020/867 (Cy. 189), O.S. 2020/884 (Cy. 195), O.S. 2020/912 (Cy. 204), O.S. 2020/961 (Cy. 215), O.S. 2020/985 (Cy. 222), O.S. 2020/1007 (Cy. 224), O.S. 2020/1011 (Cy. 225), O.S. 2020/1022 (Cy. 227), O.S. 2020/1035 (Cy. 229), O.S. 2020/1040 (Cy. 230), O.S. 2020/1043 (Cy. 232), O.S. 2020/1049 (Cy. 235), O.S. 2020/1066 (Cy. 240), O.S. 2020/1079 (Cy. 242) ac O.S. 2020/1102 (Cy. 251).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(iv) corff llywodraethu cenedlaethol camp neu weithgaredd arall, a

(b) os yw'r person sy'n ei drefnu wedi—

(i) cynnal asesiad risg a fyddai'n bodloni gofynion rheoliad 3 o Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999(**1**), pa un a yw'r person yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau hynny ai peidio, a

(ii) cydymffurfio â gofynion rheoliadau 12(2) a 13(1).

(9) At ddibenion paragraff (8)(b)—

(a) mae rheoliad 3 o Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 yn gymwys fel pe bai'r gweithgaredd neu'r digwyddiad yn ymgymeriad a wneir gan y person sy'n ei drefnu;

(b) mae rheoliad 12(2) o'r Rheoliadau hyn yn gymwys fel pe bai'r man lle y mae'r gweithgaredd neu'r digwyddiad yn digwydd yn fangre agored y mae'r person sy'n ei drefnu yn gyfrifol amdani."

(3) Yn rheoliad 4, ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(3) Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r angen am y cyfyngiadau a osodir gan reoliad 14D, a pha un a yw'r cyfyngiadau hynny yn gymesur â'r hyn y mae Gweinidogion Cymru yn ceisio ei gyflawni drwyddynt—

(a) erbyn 23 Hydref 2020;

(b) o leiaf unwaith yn y cyfnod o 7 diwrnod sy'n dechrau ar 24 Hydref 2020;

(c) o leiaf unwaith ym mhob cyfnod dilynol o 7 niwrnod. "

(4) Yn rheoliad 14(2)—

(a) ym mharagraff (2), yn lle "darparu neu gael gofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal personol perthnasol" rhodder "darparu, cael neu gael gafael ar ofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal plant neu ofal personol perthnasol";

(b) yn lle is-baragraff (ja) rhodder—

"(ja) cymryd rhan mewn gweithgareddau wedi eu trefnu er datblygiad neu lesiant plant (gan gynnwys chwaraeon, cerddoriaeth a gweithgareddau hamdden eraill megis y rheini a

---

(**1**) O.S. 1999/3242. Diwygiwyd rheoliad 3 gan O.S. 2005/1541, O.S. 2015/21 ac O.S. 2015/1637.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ddarperir ar gyfer plant y tu allan i oriau'r ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol), neu hwyluso'r gweithgareddau hynny;".

(5) Yn rheoliad 14A—

(a) ym mharagraff (2), yn lle is-baragraff (e) rhodder—

"(e) darparu, cael neu gael gafael ar ofal plant;

(ea) cymryd rhan mewn gweithgareddau wedi eu trefnu er datblygiad neu lesiant plant (gan gynnwys chwaraeon, cerddoriaeth a gweithgareddau hamdden eraill megis y rheini a ddarperir ar gyfer plant y tu allan i oriau'r ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol), neu hwyluso'r gweithgareddau hynny;";

(b) ym mharagraff (3), yn y geiriau o flaen is-baragraff (a), yn lle "ddigwyddiad awyr agored wedi ei drefnu" rhodder "ddigwyddiad wedi ei drefnu a gynhelir yn yr awyr agored";

(c) hepgorer paragraffau (4) a (5).

(6) Ar ôl rheoliad 14C mewnosoder—

## "RHAN 4B

### Cyfyngiadau teithio

**Cyfyngiadau ar deithio i ardaloedd ac o ardaloedd lle y mae nifer yr achosion o'r coronafeirws yn uchel**

**14D.**—(1) Ni chaiff unrhyw berson sy'n byw mewn ardal a restrir yn Atodlen 4B, heb esgus rhesymol, fynd i ran o Gymru nad yw'n ardal diogelu iechyd leol neu aros mewn rhan o Gymru o'r fath.

(2) Ni chaiff unrhyw berson sy'n byw mewn rhan o Gymru nad yw'n ardal diogelu iechyd leol, heb esgus rhesymol, adael Cymru at ddiben mynd i ardal a restrir yn Atodlen 4B.

(3) At ddibenion paragraffau (1) a (2), mae esgus rhesymol yn cynnwys yr angen i wneud y canlynol mewn rhan o Gymru nad yw'n ardal diogelu iechyd leol neu mewn ardal a restrir yn Atodlen 4B (yn y drefn honno)—

(a) cael—

(i) bwyd a chyflenwadau meddygol ar gyfer y rheini yn yr un aelwyd (gan gynnwys anifeiliaid yn yr un aelwyd) neu ar gyfer personau hyglwyf;

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(ii) cyflenwadau ar gyfer cynnal, cynnal a chadw a gweithrediad hanfodol yr aelwyd, neu aelwyd person hyglwyf;

(b) cael arian oddi wrth unrhyw fusnes neu wasanaeth a restrir ym mharagraff 6 neu 7 o Atodlen 4 neu adneuo arian gydag unrhyw fusnes neu wasanaeth o'r fath;

(c) cael neu ddarparu cynhorthwy meddygol, gan gynnwys cael gafael ar unrhyw un neu ragor o'r gwasanaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 10 o Atodlen 4 neu gael gafael ar wasanaethau milfeddygol;

(d) darparu, cael neu gael gafael ar ofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal plant neu ofal personol perthnasol o fewn ystyr "relevant personal care" ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(**1**), pan fo'r person sy'n cael y gofal yn berson hyglwyf;

(e) gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol pan na fo'n rhesymol ymarferol gwneud y gwaith neu ddarparu'r gwasanaeth o'r tu allan i'r ardal;

(f) pan fo'r person yn athletwr elît, hyfforddi a chystadlu;

(g) darparu neu gael cynhorthwy brys;

(h) mynd i weinyddiad priodas neu ffurfiad partneriaeth sifil —

(i) fel parti i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil,

(ii) os caiff ei wahodd i fynychu, neu

(iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil;

(i) mynd i angladd —

(i) fel person sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd,

(ii) os caiff ei wahodd gan berson sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd, neu

(iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r angladd;

(j) cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechnïaeth, neu gymryd rhan mewn achos cyfreithiol;

---

(**1**) 2006 p. 47. Mewnosodwyd paragraff 7(3B) gan adran 66(2) o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 (p. 9).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(k) cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus neu gael y gwasanaethau hynny;

(l) cymryd rhan mewn gweithgareddau wedi eu trefnu er datblygiad neu lesiant plant (gan gynnwys chwaraeon, cerddoriaeth a gweithgareddau hamdden eraill megis y rheini a ddarperir ar gyfer plant y tu allan i oriau'r ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol), neu hwyluso'r gweithgareddau hynny;

(m) cael gafael ar wasanaethau addysgol;

(n) mewn perthynas â phlant nad ydynt yn byw yn yr un aelwyd â'u rhieni, neu un o'u rhieni, parhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld rhieni a phlant, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion y paragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i'r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal drosto;

(o) symud cartref;

(p) ymgymryd â gweithgareddau mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu, gosod neu rentu eiddo preswyl;

(q) osgoi anaf neu salwch neu ddianc rhag risg o niwed;

(r) teithio i gyrraedd man y tu allan i'r ardal.

(3) At ddibenion paragraff (1), nid yw'n esgus rhesymol i berson fynd i ran o Gymru nad yw'n ardal diogelu iechyd leol, neu aros mewn rhan o Gymru o'r fath, i wneud unrhyw beth os byddai'n rhesymol ymarferol i'r person wneud y peth hwnnw y tu allan i'r ardal

(4) At ddibenion paragraff (2), nid yw'n esgus rhesymol i berson adael Cymru at ddiben mynd i ardal a restrir yn Atodlen 4B i wneud unrhyw beth os byddai'n rhesymol ymarferol i'r person wneud y peth hwnnw y tu allan i'r ardal."

(7) Yn rheoliad 18—

(a) ar ôl paragraff (4A) mewnosoder—

"(4B) Pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person ("P") yn torri (neu ar fin torri) rheoliad 14D(1) neu (2), caiff y swyddog gyfarwyddo P i ddychwelyd i'r man lle y mae P yn byw.";

(b) ym mharagraff (5)(a), yn lle "neu (4A)" rhodder ", (4A) neu (4B)";

(c) ym mharagraff (6ZA), yn lle "paragraff" rhodder "rheoliad 14D(1) neu (2) neu baragraff".

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(8) Yn rheoliad 20—

(a) ym mharagraff (1)(b), yn lle "neu 14B(1)" rhodder ", 14B(1) neu 14D(1) neu (2)";

(b) ym mharagraff (3)(a), ar ôl "18(4A)(a)," mewnosoder "18(4B),".

(9) Yn Atodlen 4A—

(a) ym mharagraff 1(q)(viii), ar ôl "Menai" mewnosoder "(Bangor)";

(b) ym mharagraff 3(2)—

(i) yn is-baragraff (d), yn lle "darparu neu gael gofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal personol perthnasol," rhodder "darparu, cael neu gael gafael ar ofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal plant neu ofal personol perthnasol";

(ii) yn is-baragraff (l), yn lle "ofal plant neu wasanaethau addysg neu gael y gofal neu'r gwasanaethau hynny" rhodder "wasanaethau addysgol neu gael y gwasanaethau hynny";

(iii) ar ôl is-baragraff (l) mewnosoder—

"(la) cymryd rhan mewn gwasanaethau wedi eu trefnu er datblygiad neu lesiant plant (gan gynnwys chwaraeon, cerddoriaeth a gweithgareddau hamdden eraill megis y rheini a ddarperir ar gyfer plant y tu allan i oriau'r ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol), neu hwyluso'r gwasanaethau hynny;";

(c) ym mharagraff 4(2)—

(i) yn is-baragraff (d), yn lle "darparu neu gael gofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal personol perthnasol," rhodder "darparu, cael neu gael gafael ar ofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal plant neu ofal personol perthnasol";

(ii) yn is-baragraff (l), yn lle "ofal plant neu wasanaethau addysg neu gael y gofal neu'r gwasanaethau hynny" rhodder "wasanaethau addysgol neu gael y gwasanaethau hynny";

(iii) ar ôl is-baragraff (l) mewnosoder—

"(la) cymryd rhan mewn gwasanaethau wedi eu trefnu er datblygiad neu lesiant plant (gan gynnwys chwaraeon, cerddoriaeth a gweithgareddau hamdden eraill megis y rheini a ddarperir ar gyfer plant y tu allan i oriau'r ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol), neu hwyluso'r gweithgareddau hynny;".

(10) Ar ôl Atodlen 4A mewnosoder—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# “ATODLEN 4B Rheoliad 14D

## Ardaloedd cyfyngiadau teithio

### Rhan 1: Lloegr

**1.** Ardaloedd y canlynol, a ddynodir yn ardaloedd Haen 2 gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Lefel Rhybudd COVID-19 Leol) (Uchel) (Lloegr) 2020(**1**) neu’n ardaloedd Haen 3 gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Lefel Rhybudd COVID-19 Leol) (Uchel Iawn) (Lloegr) 2020(**2**)—

*Cumbria*

Cyngor Bwrdeistref Barrow-in-Furness

*De Swydd Efrog*

Cyngor Bwrdeistref Fetropolitanaidd Barnsley

Cyngor Bwrdeistref Fetropolitanaidd Rotherham

Cyngor Dinas Sheffield

Cyngor Doncaster

*Durham*

Cyngor Sir Durham

*Essex*

Cyngor Basildon

Cyngor Bwrdeistref Brentwood

Cyngor Bwrdeistref Castle Point

Cyngor Bwrdeistref Colchester

Cyngor Dinas Chelmsford

Cyngor Dosbarth Braintree

Cyngor Dosbarth Epping Forest

Cyngor Dosbarth Maldon

Cyngor Dosbarth Rochford

Cyngor Dosbarth Tendring

Cyngor Dosbarth Uttlesford

(**1**) O.S. 2020/1104.
(**2**) O.S. 2020/1105.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Cyngor Harlow

*Glannau Mersi*

Cyngor Bwrdeistref Fetropolitanaidd Knowsley

Cyngor Bwrdeistref Fetropolitanaidd Wirral

Cyngor Bwrdeistref Halton

Cyngor Bwrdeistref Sefton

Cyngor Bwrdeistref St Helens

Cyngor Dinas Lerpwl

*Gogledd Swydd Efrog*

Cyngor Dinas Caerefrog

*Gorllewin Canolbarth Lloegr*

Cyngor Bwrdeistref Fetropolitanaidd Sandwell

Cyngor Bwrdeistref Fetropolitanaidd Solihull

Cyngor Dinas Birmingham

Cyngor Dinas Wolverhampton

Cyngor Walsall

*Gorllewin Swydd Efrog*

Cyngor Bwrdeistref Fetropolitanaidd Calderdale

Cyngor Dinas Leeds

Cyngor Dosbarth Metropolitanaidd Dinas Bradford

Cyngor Metropolitanaidd Kirklees

Cyngor Wakefield

*Llundain Fwyaf*

Cyngor Bwrdeistref Barking a Dagenham

Cyngor Bwrdeistref Barnet

Cyngor Bwrdeistref Bexley

Cyngor Bwrdeistref Brent

Cyngor Bwrdeistref Bromley

Cyngor Bwrdeistref Camden

Cyngor Bwrdeistref Croydon

Cyngor Bwrdeistref Ealing

Cyngor Bwrdeistref Enfield

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Cyngor Bwrdeistref Greenwich

Cyngor Bwrdeistref Hackney

Cyngor Bwrdeistref Hammersmith a Fulham

Cyngor Bwrdeistref Haringey

Cyngor Bwrdeistref Harrow

Cyngor Bwrdeistref Havering

Cyngor Bwrdeistref Hillingdon

Cyngor Bwrdeistref Hounslow

Cyngor Bwrdeistref Islington

Cyngor Bwrdeistref Kensington a Chelsea

Cyngor Bwrdeistref Kingston upon Thames

Cyngor Bwrdeistref Lambeth

Cyngor Bwrdeistref Lewisham

Cyngor Bwrdeistref Merton

Cyngor Bwrdeistref Newham

Cyngor Bwrdeistref Redbridge

Cyngor Bwrdeistref Richmond upon Thames

Cyngor Bwrdeistref Southwark

Cyngor Bwrdeistref Sutton

Cyngor Bwrdeistref Tower Hamlets

Cyngor Bwrdeistref Waltham Forest

Cyngor Bwrdeistref Wandsworth

Cyngor Cyffredin Dinas Llundain

Cyngor Dinas Westminster

*Manceinion Fwyaf*

Cyngor Bwrdeistref Fetropolitanaidd Bolton

Cyngor Bwrdeistref Fetropolitanaidd Bury

Cyngor Bwrdeistref Fetropolitanaidd Oldham

Cyngor Bwrdeistref Fetropolitanaidd Stockport

Cyngor Bwrdeistref Fetropolitanaidd Tameside

Cyngor Bwrdeistref Fetropolitanaidd Trafford

Cyngor Bwrdeistref Fetropolitanaidd Wigan

Cyngor Bwrdeistref Rochdale

Cyngor Dinas Manceinion

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Cyngor Dinas Salford

*Northumberland*

Cyngor Sir Northumberland

*Surrey*

Cyngor Bwrdeistref Elmbridge

*Swydd Derby*

Cyngor Bwrdeistref Chesterfield

Cyngor Bwrdeistref Erewash

Cyngor Dosbarth Gogledd-ddwyrain Swydd Derby

Yn ardal Cyngor Bwrdeistref High Peak, yr ardaloedd etholiadol (fel y diffinnir "electoral area" gan adran 203(1) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(**1**)) a ganlyn—

Dinting

Gamesley

Hadfield North

Hadfield South

Howard Town

Old Glossop

Padfield

Simmondley

St John's

Tintwistle

Whitfield

*Swydd Gaer*

Cyngor Bwrdeistref Warrington

Cyngor Dwyrain Swydd Gaer

Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer

*Swydd Gaerhirfryn*

Cyngor Blackpool

Cyngor Bwrdeistref Blackburn gyda Darwen

(**1**) p. 2. Diwygiwyd gan Atodlen 3 i Ddeddf Awdurdod Llundain Fwyaf 1999 (p. 29).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Cyngor Bwrdeistref Burnley

Cyngor Bwrdeistref Chorley

Cyngor Bwrdeistref De Ribble

Cyngor Bwrdeistref Fylde

Cyngor Bwrdeistref Gorllewin Swydd Gaerhirfryn

Cyngor Bwrdeistref Hyndburn

Cyngor Bwrdeistref Pendle

Cyngor Bwrdeistref Ribble Valley

Cyngor Bwrdeistref Rossendale

Cyngor Bwrdeistref Wyre

Cyngor Dinas Caerhirfryn

Cyngor Dinas Preston

*Swydd Gaerlŷr*

Cyngor Bwrdeistref Oadby a Wigston

Cyngor Dinas Caerlŷr

*Swydd Nottingham*

Cyngor Bwrdeistref Broxtowe

Cyngor Bwrdeistref Gedling

Cyngor Bwrdeistref Rushcliffe

Cyngor Dinas Nottingham

Cyngor Dosbarth Ashfield

Cyngor Dosbarth Bassetlaw

Cyngor Dosbarth Mansfield

Cyngor Dosbarth Newark a Sherwood

*Tees Valley*

Cyngor Bwrdeistref Darlington

Cyngor Bwrdeistref Hartlepool

Cyngor Bwrdeistref Middlesbrough

Cyngor Bwrdeistref Redcar a Cleveland

Cyngor Bwrdeistref Stockton-on-Tees

*Tyne a Wear*

Cyngor De Tyneside

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Cyngor Dinas Newcastle

Cyngor Dinas Sunderland

Cyngor Gateshead

Cyngor Gogledd Tyneside

## Rhan 2: Yr Alban

**2.** Yr ardal a ddynodir yn ardal wedi ei diogelu gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws) (Cyfyngiadau a Gofynion) (Mesurau Ychwanegol Dros Dro) (Yr Alban) 2020(**1**), sydd wedi ei ffurfio o'r ardaloedd llywodraeth leol a ganlyn—

De Swydd Ayr

De Swydd Lanark

Dinas Caeredin

Dinas Glasgow

Dwyrain Lothian

Dwyrain Swydd Ayr

Dwyrain Swydd Dunbarton

Dwyrain Swydd Renfrew

Falkirk

Gogledd Swydd Ayr

Gogledd Swydd Lanark

Gorllewin Lothian

Gorllewin Swydd Dunbarton

Inverclyde

Midlothian

Stirling

Swydd Clackmannan

Swydd Renfrew

## Rhan 3: Gogledd Iwerddon

**3.** Gogledd Iwerddon yn ei chyfanrwydd."

(**1**) O.S.A. 2020/318.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Mark Drakeford*
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 11.40 a.m. ar 16 Hydref 2020